

## Polisi Preifatrwydd Ceiswyr Safonol/Uwch Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

### 1. Amdanom ni

- 1.1. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio diogelach ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau bregus, gan gynnwys plant.
- 1.2. Pob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi tua phedwar miliwn o dystysgrifau Datgelu. Rydym hefyd yn rheoli rhestrau gwahardd plant ac oedolion.
- 1.3. Rydym yn chwilio cofnodion yr heddlu ac mewn achosion perthnasol, gwybodaeth y rhestr gwahardd, ac yna cyhoeddi tystysgrif DBS ichi.
- 1.4. Ambell waith, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, ac er mwyn cynhyrchu tystysgrif lawn a chywir, mae'n rhaid inni gyhoeddi tystysgrif a gynhyrchir â llaw. Mae tystysgrifau â llaw yn dilyn yr un prosesau gwirio â'n tystysgrifau a gynhyrchir gan y system ac mae iddynt ddilysrwydd cyfartal. Dylid nodi, fodd bynnag, na all ceiswyr sy'n derbyn tystysgrif â llaw ymuno â'r gwasanaeth diweddar gyda'r dystysgrif honno.
- 1.5 Rydym yn gwybod gall yr wybodaeth a ryddheir ar dystysgrifau'r DBS fod yn eithriadol o sensitif a phersonol. Gan hynny, mae'n rhaid i sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaeth gwirio'r DBS **gydymffurfio â'n [cod ymarfer](#)**. Mae'r cod yna i sicrhau bod sefydliadau'n ymwybodol o'u rhwymedigaethau a defnyddir yr wybodaeth a ryddheir yn deg. Mae'r cod hefyd yn sicrhau y trinnir a storir gwybodaeth sensitif, bersonol a ddatgelir gan y DBS, **yn briodol a'i chadw ond cyhyd ag y bo angen**.
- 1.6. Mae'r DBS yn cynnig gwahanol fathau o wiriad a gyhoeddir o dan Ddeddf yr Heddlu 1997:
  - mae gwiriad sylfaenol yn dangos euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol o dan delerau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974
  - mae gwiriad safonol yn dangos euogfarnau wedi eu disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion terfynol nad ydynt yn ddarostyngedig i hidlo
  - mae gwiriad uwch yn dangos yr un peth â gwiriad safonol plws unrhyw wybodaeth a ddelir gan yr heddlu lleol a ystyrir yn rhesymol berthnasol, ac a ddylid ei datgelu, mewn perthynas â'r plentyn neu weithluoedd oedolion. Lle mae'r cais am unrhyw rôl arall, bydd yr heddlu yn ystyried natur y rôl yn rhyddhau'r wybodaeth.
  - mae gwiriad uwch gyda rhestrau gwahardd yn dangos yr un peth â gwiriad uwch plws a yw'r ceisydd ar y rhestr o bobl wedi eu gwahardd rhag gwneud y rôl
- 1.7. Gall cyflogwyr ond cyflawni gwiriad safonol neu uwch pan fyddwch yn ceisio am rolau arbennig. Er enghraifft, efallai eich bod yn ceisio am rôl yng ngofal iechyd neu ofal plant.
- 1.8. Bydd gennych y gallu i [dracio'ch cais](#) ar gyfer gwiriadau safonol ac uwch. Bydd angen ichi roi cyfeirnod eich ffurflen a'ch dyddiad geni i mewn er mwyn defnyddio'r cyfleuster hwn.

## 2. Beth ydw i angen ei wybod?

- 2.1. Dyma ein Polisi Preifatrwydd. Mae'n adrodd sut fyddwn yn defnyddio a diogelu unrhyw wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch chi fel rhan o'ch cais datgelu safonol neu uwch.
- 2.2. Mae'r Polisi hefyd yn egluro beth yw'ch hawliau fel ceisydd safonol neu uwch o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae'n adrodd pam rydym angen eich data personol, beth fyddwn yn ei wneud ag ef a beth allwch ddisgwyl gennym ni. Mae hefyd yn egluro sut i gael copi o unrhyw ddata personol gallwn ei ddal amdanoch chi. Gelwir hyn yn [Gais Testun am Weld Gwybodaeth](#).
- 2.3. Mae gennym Bolisiau Preifatrwydd eraill sy'n cynnwys ein swyddogaethau statudol. Gellir cael mynediad [yma](#).

## 3. Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gyflwynir inni?

- 3.1. Rydym ni yn y DBS yn casglu'ch data personol er mwyn:
  - prosesu ceisiadau am wiriadau cofnodion troseddol (gwiriadau DBS). Bydd hyn yn cynnwys chwilio cofnodion yr heddlu, cyhoeddi tystysgrif y DBS i'r ceisydd ac o dan amgylchiadau arbennig, cael olion bysedd
  - penderfynu a yw'n briodol i berson gael ei roi ar neu ei dynnu oddi ar restr wahardd, os datgelir gwybodaeth ar dystysgrif y DBS prosesu gwiriadau 'Oedolion yn Gyntaf' – mae hwn yn wasanaeth a ddarperir gan y DBS o dan Ddeddf yr Heddlu 1997. Gellir ei ddefnyddio mewn achosion eithriadol lle caniateir i'r person ddechrau gweithgaredd gydag oedolion a reoleiddir, cyn y derbyniwyd tystysgrif y DBS. Mae'r gwasanaeth hwn ond ar gael i sefydliadau sy'n gymwys i gael mynediad at y rhestr y DBS o oedolion a waherddir ac sydd wedi gofyn gwiriad o'r rhestr wahardd ar eu ffurflen gais y DBS. Mae gwiriad Oedolion yn Gyntaf y DBS yn caniatáu i unigolyn gael ei wirio yn erbyn rhestr wahardd y DBS o flaen i gyhoeddiad y dystysgrif Ddatgelu. Anfonir canlyniad rhagarweiniol at y Corff Cofrestredig a gyflwynodd y cais
  - prosesu taliadau lle bo'n briodol
- 3.2. Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch yn dibynnu ar y rheswm am eich busnes gyda ni. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth rydym yn ei derbyn at unrhyw un o'r dibenion a restrir uchod.
- 3.3. Gellid hefyd defnyddio'ch gwybodaeth at ddibenion profi. Ymgymerir â phrofi i sicrhau bod ein systemau yn gweithio yn unol â gofynion penodol. Os nad yw'n ymarferol cuddio'ch data neu ddefnyddio data ffug, byddwn yn profi'n systemau trwy ddefnyddio'ch data. Cynhelir y profion hyn ond mewn amgylcheddau sy'n ddiogel i'r un lefel â'n system fyw.

**Noder gallwn ddefnyddio ceisiadau blaenorol rydych wedi eu cyflwyno i helpu'r broses wirio.**

## 4. Pwy yw'r rheolwr data?

- 4.1. Mae rheolwr data yn penderfynu'r diben a'r dull y prosesir unrhyw ddata personol.

- 4.2. Y DBS yw'r rheolwr data o wybodaeth a ddelir gennym at ddibenion GDPR. Rydym yn gyfrifol am ddiogelwch y data rydym yn ei ddal.

## 5. Pwy yw'r proseswyr data?

- 5.1. Prosesydd data yw unrhyw berson (heblaw am gyflogai rheolwr data) sy'n prosesu'r data hwnnw ar ran y rheolwr.
- 5.2. Yn y DBS mae gennym ystod o gyflenwyr sy'n prosesu data ar ran y DBS fel y diffinnir yn adran 9. Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein proseswyr data yn cydymffurfio â phob gofyniad perthnasol o dan y gyfraith ddiogelu data. Diffinnir hyn yn ein trefniadau cytundebol â nhw.

## 6. Cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data

- 6.1. Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data y DBS, Elaine Carlyle dros y ffôn ar **0151 676 1154**, drwy e-bost yn [dbsdatabprotection@dbs.gov.uk](mailto:dbsdatabprotection@dbs.gov.uk), neu drwy ysgrifennu at:

**Elaine Carlyle**  
**Swyddog Diogelu Data y DBS**  
**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**  
**BP 165**  
**Lerpwl**  
**L69 3JD**

## 7. Beth yw'r seiliau cyfreithiol am brosesu fy ngwybodaeth?

- 7.1. Sefydlwyd y DBS o dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ar 1 Rhagfyr 2011. Cynhwysir swyddogaethau datgelu'r DBS yn Rhan V o Ddeddf yr Heddlu 1997.
- 7.2. Rydym yn darparu gwasanaeth sy'n galluogi cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wneud penderfyniadau addasrwydd. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth i'w galluogi pennu a yw unigolion yn anaddas neu ddim yn gallu ymgymryd â gwaith penodol – yn arbennig, gyda swyddi sy'n cynnwys cysylltiad rheolaidd â grwpiau bregus, gan gynnwys plant.
- 7.3. Yn ychwanegol at yr uchod, gallwn rannu gwybodaeth â thrydydd partïon at ddibenion eraill pan mae gennym yr hawl gyfreithiol i wneud hynny.

## 8. Pam fyddai'r DBS yn dal fy nata personol?

- 8.1. Byddwn ond yn dal eich data os ydych:
- wedi defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu yn y gorffennol neu rydych yn ei ddefnyddio
  - wedi'ch cyfeirio at y DBS am ystyriaeth o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (SVGA) neu Orchymyn Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Gogledd Iwerddon) 2007
  - wedi'ch rhybuddio neu'ch collfarnu am drosedd berthnasol (sy'n gwahardd yn awtomatig) sy'n arwain i'r DBS eich ystyried am gael eich cynnwys ar un neu'r ddwy restr.
- 8.2. Os ydym yn gofyn ichi am eich gwybodaeth bersonol, byddwn:

- yn sicrhau eich bod yn gwybod pam rydym angen yr wybodaeth hon
  - ond yn gofyn am yr wybodaeth rydym ei hangen
  - yn sicrhau mai ond y rhai priodol sy'n cael mynediad ati
  - yn storio'ch gwybodaeth yn ddiogel
  - yn eich hysbysu os bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd parti
  - yn gofyn ichi gydsynio inni rannu'ch gwybodaeth lle mae gennych chi ddewis
- ond yn cadw'ch gwybodaeth cyhyd ag y bo angen - gweler ein [Polisi Cadw](#)
    - yn peidio â'i wneud ar gael at ddefnydd masnachol (fel marchnata) heb eich caniatâd
    - yn sicrhau y darperir chi â chopi o'r data rydym yn ei ddal arnoch chi, ar gais – gelwir hyn yn [Gais Testun am Weld Gwybodaeth](#)
    - yn sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle ar gyfer delio'n sydyn ag unrhyw [anghydfod](#) neu [gŵyn](#)

Noder: Byddwn yn rhannu gwybodaeth gydag 'awdurdodau perthnasol' fel yr heddlu, adrannau'r llywodraeth etc o dan Ddeddf Diogelu Data Atal a Darganfod Troseddau (AtI2, Rhan 1 Paragraff 2) y DU.

Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data y DU (AtI2 Rhan 2 Paragraff 5(2)) lle mae'n ofynnol datgelu o dan y gyfraith neu mewn cysylltiad ag achos llys.

8.3. Yn gyfnewid am hyn, byddwn yn gofyn ichi:

- roi gwybodaeth gywir inni
- [ddweud wrthym cyn gynted â phosibl a oes unrhyw newidiadau i'ch manylion, fel cyfeiriad newydd](#)

8.4. Mae hyn yn helpu cadw'ch gwybodaeth yn gyfredol a diogel. Bydd yn berthnasol os ydym yn dal eich data ar bapur neu ar ffurf electronig.

## 9. Sefydliadau a gynhwysir yn y Gwasanaeth Datgelu

9.1. Trosglwyddir data i sefydliadau a ffynonellau data a gynhwysir â'r DBS lle caniateir inni'n gyfreithiol i wneud hynny. Sef:

- Tata Consultancy Services (TCS) gan gynnwys eu darparwyr trydydd parti – partner a phrosesydd data yn y gwasanaeth DBS
- Heddluoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac Ynysoedd y Sianel – gwneir chwiliadau ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a gall data ei basio ymlaen at luoedd lleol o'r heddlu. Defnyddir y data i ddiweddarau unrhyw ddata personol mae'r heddlu yn ei ddal arnoch ar hyn o bryd.

- Swyddfa Cofnodion Troseddol ACRO – mae'n rheoli gwybodaeth cofnodion troseddol ac yn gwella'r cyfnewid cofnodion troseddol a gwybodaeth fiometrigr
- Ffynonellau data eraill fel Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Heddlu'r Lluoedd a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn – gwneir chwiliadau trwy ddefnyddio bas-data mewnol. Lle ceir cyfatebiaeth, rhennir yr wybodaeth i sicrhau mai chi yw cyfatebiaeth y cofnod
- Disclosure Scotland – os ydych wedi treulio unrhyw amser yn yr Alban, gall eich manylion eu cyfeirio at Disclosure Scotland
- Garda – os yw gwybodaeth a ddelir gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PNSI) yn nodi bod gwybodaeth yn bodoli yng Ngweriniaeth Iwerddon gall eich manylion eu cyfeirio at Garda
- Access Northern Ireland – os ydych wedi treulio unrhyw amser yng Ngogledd Iwerddon gall eich manylion eu cyfeirio at Access Northern Ireland
- Monitor Annibynnol (MA) – i gynnal adolygiadau o wybodaeth leol (cudd-wybodaeth a gymeradwyir) a ryddheir gan heddluoedd lleol
- Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA) – rhan o'u rôl yw archwilio cwynion sydd wedi mynd drwy brosesau adolygu mewnol
- Awdurdod Canolog y Deyrnas Unedig – far gyfer cyfnewid cofnodion troseddol â gwledydd eraill yr UE
- Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) sy'n rhan o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)
- Cyrff Cofrestredig – y cyrff sydd wedi eu cofrestru â'r DBS i gyflwyno gwiriadau Datgelu
- DXC Technology – ein darparwr o storio yn y cwmwl
- ATOS – ar gyfer casglu data ceisiadau e-bulk
- National Identity Services (NIS) – yn cynorthwyo lanlwytho hen gofnodion troseddol o ficro-lun i Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)

## **10. Lle storir fy nata?**

- 10.1. Storir eich data ar ffeiliau papur a chyfrifiadurol diogel. Mae mynediad cyfyngedig i'r rhain. Lle delir eich data ar ffurf bapur mae gennym storfa a phrosesau diogel ar gyfer hyn. Mewn rhai achosion gallwn ddefnyddio storfeydd diogel oddi ar y safle. Mae gennym fesurau sydd wedi eu cymeradwyo ar waith i atal mynediad a datgelu anawdurdodedig. Mae pob un o'n systemau TG yn ddarostyngedig i achrediad ffurfiol yn unol â pholisi Llywodraeth Ei Mawrhydi (HMG). Maent hefyd yn cydymffurfio â'r diogelwch sydd ei angen oddi mewn i GDPR i wneud yn siŵr y prosesir data personol mewn dull sy'n sicrhau diogelwch addas y data gan gynnwys diogelwch yn erbyn unrhyw brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithion.

## **11. Pa mor hir fydd y DBS yn dal fy ngwybodaeth?**

- 11.1. Rydym yn gweithredu [Polisi Cadw Data](#) i sicrhau na chedwir data yn hwy nac sydd angen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae cyfyngiad ar dministrio gwybodaeth oherwydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol sy'n mynd rhagddo. Yng ngoleuni hyn, mae'r DBS ar hyn o bryd yn ail-asesu'r gofynion cadw.
- 11.2. Bydd unrhyw ddata rydym yn cydnabod a all gael ei alw arno gan yr ymchwiliad yn cael ei gadw hyd ddiwedd yr ymchwiliad. Y pryd hynny dinistrir yr wybodaeth yn ddiogel cyn gynted ag y mae'n ymarferol.

## **12. Beth yw fy hawliau? Sut bydd y DBS yn eu diogelu?**

- 12.1. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu'ch hawliau o dan y GDPR.

### **12.1.1. Eich hawl i gael eich hysbysu**

Mae'r ddogfen hon yn eich darparu â gwybodaeth mewn perthynas â sut y prosesir eich data fel ceisydd DBS. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn dryloyw ynglŷn â beth fyddwn yn ei wneud â'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu inni ar eich cais safonol neu uwch.

### **12.1.2. Eich hawl i gael mynediad at eich data personol a ddelir gan y DBS – sy'n cael ei adnabod fel Cais Testun i Weld Gwybodaeth**

Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth rydym yn ei ddal amdanoch chi.

O dderbyn cais dilys byddwn yn eich hysbysu a ydym yn dal unrhyw ddata arnoch chi a darparu chi â chopi. Gellir canfod rhagor o wybodaeth ar sut i geisio [yma](#)

### **12.1.3. Eich hawl i ofyn bod yr wybodaeth a ddelir yn gywir. A allaf ei diweddarau?**

Os ydych yn credu bod yr wybodaeth a ddelir gennym yn y DBS yn anghywir, mae gennych yr hawl i ofyn iddi gael ei chywiro. Os ydych yn herio cywirdeb data a ddarparwyd inni gan drydydd parti byddwn yn anfon eich cais am gywiro at y parti hwnnw iddynt ei ystyried.

Mae'n ddyletswydd arnoch chi a'r Corff Cofrestredig, y sefydliad sy'n gwirio'ch hunaniaeth, i sicrhau bod yr wybodaeth rydych wedi ei chyflwyno ar eich ffurflen gais yn gywir.

Os ydych chi'n credu rydych wedi cyflwyno gwall ar gais sydd o hyd 'yn fyw' bydd angen ichi gysylltu â ni ar unwaith ar **03000 200 191**.

Os ydych yn dymuno i [herio](#) gwybodaeth a gynhwysir ar dystysgrif gyflawn gallwch gwyno drwy gysylltu â ni ar **03000 200 191**.

Gall trydydd partion hefyd herio tystysgrif DBS os oes ganddynt holl wybodaeth y dystysgrif sydd ei hangen:

- enw'r ceisydd
- dyddiad geni'r ceisydd
- rhif y dystysgrif
- dyddiad y cyhoeddi

- cyfeiriad y ceisydd

Lle mae hyn yn wir, fe hysbysir y ceisydd gan y DBS bod trydydd parti wedi cwyno.

Darllenwch ein canllaw ar [GOV.UK](http://GOV.UK) am ragor o wybodaeth am gwynion.

#### 12.1.4. Eich hawl i ofyn am ddileu'ch data personol

O dan rai amgylchiadau, mae gennych yr hawl i ddata personol a ddelir amdanoch chi gael ei ddileu. Yn y DBS, rydym ond yn gwneud hyn os cydymffurfir â rhai meini prawf arbennig. Mae rhai amgylchiadau lle ni ellir gwneud hyn felly rydym yn eich cyngori i geisio cyngor annibynnol cyn cyflwyno cais inni.

Bydd [unrhyw geisiadau am ddileu gwybodaeth](#) yn cael eu hystyried ar sail achos fesul achos

Mae rhai amgylchiadau penodol lle nad yw'r hawl i ddileu yn berthnasol a gallwn wrthod eich cais.

#### 12.1.5. Eich hawl i atal y DBS rhag prosesu gwybodaeth sy'n debygol o achosi niwed neu ofid ichi

Mae gennych yr hawl i ofyn am gyfyngu prosesu lle mae wedi sefydlu bod un o'r canlynol yn berthnasol:

- herir cywirdeb data personol, yn ystod y cyfnod cywiro
- lle mae prosesu'n angyhyfreithlon
- lle mae unigolyn wedi gofyn i'r wybodaeth gael ei chadw i'w alluogi i sefydlu, arfer neu amddiffyn ceisiadau cyfreithiol
- wrth ddisgwyl am gadarnhad y canlyniad yr hawl i wrthwynebu
- lle cyfyngir ar brosesu

Gall cwsmeriaid y DBS ofyn am gyfyngiad ar brosesu am unrhyw un o'r rhesymau uchod hyd nes y datrysir nhw. Pe dymunech gyfyngu ar brosesu bydd angen ichi alw llinell gymorth y DBS ar **03000 200 191**. Bydd unrhyw gais i atal prosesu yn cael ei drin ar sail achos fesul achos.

#### 12.1.6 Hawl i dderbyn copi electronig o unrhyw wybodaeth rydych wedi cydsynio i'w darparu inni – sy'n cael ei adnabod fel data y gellir ei gludo

Mae gennych yr hawl, lle mae hyn yn bosibl yn dechnegol, i dderbyn yn electronig unrhyw ddata personol rydych wedi darparu i'r DBS i'w brosesu, ar sail cydsyniad. Nodwch y prosesir tystysgrifau sylfaenol, safonol ac uwch o dan ein rhwymedigaeth gyfreithiol, o dan Ran V o Ddeddf yr Heddlu 1997, a phrosesir gwybodaeth wahardd o dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Gan hynny, mae'r wybodaeth hon yn disgyn tu allan i'r hawl i ddata y gellir ei gludo.

Bydd pob cais am ddata y gellir ei gludo [pob cais am ddata y gellir ei gludo](#) yn cael ei hystyried ar sail cais fesul cais.

#### 12.1.7. Mae gennych yr hawl i wrthwynebu i brosesu'ch gwybodaeth

Pe dymunech i'r DBS atal prosesu'ch cais bydd angen ichi [dynnu'r cais yn ei ôl](#).

#### 12.1.8. Mae gennych hawliau mewn perthynas â phenderfyniadau awtomatig a wneir amdanoch chi

Yn gyffredinol, mae ein proses datgelu yn awtomatig. Fodd bynnag, os yw'r system yn canfod y mae gwybodaeth bosibl gan yr heddlu a ddelir amdanoch, yna fe anfonir hyn at yr heddlu perthnasol i'w hystyried mewn perthynas â gwybodaeth a all ei datgelu ar eich tystysgrif. Nid yw hyn yn broses awtomatig ac mae'n cynnwys barn y Prif Swyddog.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu unrhyw benderfyniad awtomatig. Dylid nodi byddai angen ichi ein hysbysu o hyn ar gyflwyniad eich cais gan allai'r dystysgrif ei chyhoeddi'n gymharol gyflym. Cysylltwch â llinell gymorth y DBS ar **03000 200 191**.

#### Gwasanaeth gwahardd

Yr unig broses penderfynu awtomatig a gynhelir ar hyn o bryd yw cynhwysiad awtomatig ar restr wahardd heb gynrychiolaeth. Ar hysbysiad o gynhwysiad ar restr wahardd, byddwch yn cael eich hysbysu os yw'ch penderfyniad wedi ei wneud yn awtomatig ac fe roddir y cyfle ichi ofyn am adolygiad â llaw o'r penderfyniad hwn. Ar hyn o bryd, nid yw'r DBS yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau proffilio.

#### 12.1.9. Mae gennych yr hawl i gwyno wrth y DBS a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Os dymunech wneud cwyn atom mewn perthynas â'r ffordd yr ydym wedi prosesu'ch data personol gallwch gwyno wrth y Swyddog Diogelu Data trwy'r manyylion cyswllt yn Adran [6.1](#).

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb a dderbyniwyd, mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn gyda'r ICO yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer SK9 5AF

<https://ico.org.uk/>

## 13 Cyfyngiadau

- 13.1 Mae cyfyngiadau ar hawliau unigolion sef:
- Diogelwch Cenedlaethol
  - Diogelwch Cyhoeddus ac Amddiffyn
  - Trosedd a Threthu

Ymdrinnir â'r cyfyngiadau hyn yn fwy manwl yn y Bil Diogelu Data 2018 (i ddod).



#### **14 Trosglwyddiad data tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd**

- 14.1 Os ydych wedi treulio amser yn Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, mae'n debygol bydd eich data wedi ei basio i heddluoedd yn yr ardal honno. Os yw unrhyw ran o'ch data wedi ei drosglwyddo tu allan i'r Deyrnas Unedig, bydd y DBS yn sicrhau y rhoddir lefel ddigonol o ddiogelwch ar waith.

#### **15. Ein staff a'n systemau**

- 15.1 Mae ein holl staff, darparwyr a chontractwyr wedi eu fetio'n gan Uned Ddiogelwch y Swyddfa Gartref cyn dechrau gweithio. Mae pob aelod o'r staff wedi eu hyfforddi mewn diogelwch data ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch data. Adnewyddir hyn yn flynyddol.

- 15.2 Rydym yn cynnal gwiriadau cydymffurfio ar bob adran a system DBS yn rheolaidd. Mae pob gwiriad i'r safon a osodir allan gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ychwanegol, cynhelir gwiriadau diogelwch parhaus ar ein systemau TG.

#### **16. Hysbysiad o newidiadau**

- 16.1 Os ydym yn penderfynu newid ein Polisi Preifatrwydd, byddwn yn ychwanegu fersiwn newydd i'n safle gwe.